YSGOL Y SANTES FAIR A GYNORTHWYIR GAN YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Polisi Derbyniadau

Cyflwyniad

Mae corff llywodraethol **Ysgol y Santes Fair a Gynorthwyir gan yr Eglwys yng Nghymru** yn defnyddio'r rheoliadau mewn perthynas â derbyniadau mewn modd teg a chyfartal i bawb sydd am fynychu'r ysgol hon. Cyflwynodd Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 fframwaith newydd ar gyfer derbyniadau ysgol o fis Medi 2000 ymlaen. Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â'r rheoliadau a osodir yn y ddeddf honno ac a esbonnir ymhellach yn y côd ymarfer statudol ar gyfer derbyniadau ysgol a'r côd ymarfer statudol ar gyfer apeliadau.

Nodau ac amcanion

Rydym yn ysgol gynhwysol sy'n croesawu plant o bob cefndir a gallu.

Bydd pob cais yn cael ei drin yn ôl ei deilyngdod ac mewn modd sensitif.

Nid yw gallu'r plentyn nac unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod ganddo ef neu ganddi hi yn chwarae unrhyw ran ym mholisi derbyniadau'r ysgol hon.

Yr unig gyfyngiad a roddwn ar dderbyniadau yw o ran nifer. Os bydd nifer y plant sy'n gwneud cais yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, byddwn yn defnyddio'r weithdrefn a amlinellir isod i benderfynu p'un a dylid derbyn plentyn ai peidio.

P'un a yw'r plentyn yn byw ym mhlwyf Owrtyn neu Erbistock.
P'un a oes gan y plentyn frawd neu chwaer yn yr ysgol eisoes.
P'un a yw'r rhieni'r addoli'n weithredol mewn Eglwys Anglicanaidd.
P'un a oes gan y rhieni/gwarcheidwaid gyswllt gweithredol â'r eglwys ac am i'w plentyn fynychu ysgol sy'n addoli'n rheolaidd a lle mae ffydd ac ymddygiad Cristnogol yn treiddio'r trwy'r addysg.
P'un a yw'r ysgol yn cynnig cefnogaeth a chyfleusterau addysgu neu gorfforol arbennig (nad ydynt ar gael mewn ysgolion eraill) sydd eu hangen yn arbennig.

Os bydd mwy o geisiadau'n bodloni'r meini prawf uchod nag sydd o leoedd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i'r rheiny sy'n byw agosaf at yr ysgol.

Sut all rhieni wneud cais i'w plentyn gael ei (d)derbyn i'n hysgol?

Gan fod yr ysgol hon yn cael ei chynorthwyo gan yr Eglwys yng Nghymru, y corff llywodraethol sy'n penderfynu ar y trefniadau derbyn ar y cyd â'r AALl. Gan hynny, y corff llywodraethol yw'r 'awdurdod derbyn' ar gyfer yr ysgol hon. Mae ffurflenni cais ar gael gan yr ysgol. Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i rieni am ei phenderfyniad unwaith i'r holl geisiadau gael eu hystyried.

YSGOL Y SANTES FAIR A GYNORTHWYIR GAN YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Derbynnir disgyblion i'r ysgol ar sail ran-amser ar ddechrau'r flwyddyn ysgol y maent yn dathlu eu pen-blwydd yn bedair oed. Nid yw addysg feithrin yn ddarpariaeth statudol ac nid oes gan rieni hawl i apelio dan Ddeddf Addysg 1980 os na fyddant yn llwyddo i gael lle. Nid yw derbyn plentyn i'r dosbarth meithrin yn sicrhau y byddant yn cael lle yn yr ysgol.

Apeliadau

Os nad ydym yn cynnig lle i blentyn yn yr ysgol hon, mae hyn am y byddai'n niweidio addysg y plant eraill trwy ganiatáu i nifer y plant yn yr ysgol gynyddu'n ormodol.

Os bydd rhieni am apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod lle, gallant wneud hynny trwy ysgrifennu at glerc y corff llywodraethol. Yna bydd panel apeliadau'n cwrdd i ystyried yr holl apeliadau gan rieni nad ydynt wedi llwyddo i gael lle i'w plentyn yn yr ysgol ac sydd am apelio yn erbyn y penderfyniad hwn. Mae penderfyniad y panel apeliadau'n orfodol i bawb dan sylw. (Gosodir manylion y trefniadau apelio yn y Côd Ymarfer ar gyfer Apeliadau sy'n ymwneud â Derbyniadau Ysgol a ddaeth i rym ym mis Medi 1999.

Nifer safonol

Y nifer safonol yw'r nifer o blant y gall ysgol eu derbyn. Nifer safonol ein hysgol ni yw **30**. Rydym yn adolygu'r nifer hon yn barhaus a bydd y llywodraethwyr yn gwneud cais i newid y nifer hon os bydd amgylchiadau'n caniatáu.

Maint dosbarthiadau babanod

Rydym yn addysgu plant yr adran fabanod (rhwng pump a saith oed) mewn dosbarthiadau sydd â mwyafswm o 30 o blant.

Adolygu

Adolygir y polisi hwn yn flynyddol gyda'r Awdurdod Derbyn yn sgil unrhyw newidiadau i'n hysgol neu'r ardal leol.